o theatr comedi ond rhoddodd pawb eu holl galon ynddi. Bu'r gwylwyr yn cymeradwyo, yn chwerthin, yn cynnig cyngor tactegol nad oedd modd i unrhyw un ei roi ar waith yng nghanol yr holl firi, a chynnig yr anogaeth arbennig honno sy'n swnio'n gefnogol ond sydd mewn gwirionedd yn ffordd o dynnu coes yn chwareus.

Hoffwn ddiolch yn fawr i Fragdy'r *M*ŵs Piws am eu nawdd, oherwydd be well ar ôl "perfformiad athletaidd rhagorol" na pheint haeddiannol ar ôl





gorffen. Wrth gwrs mae yfed digon yn bwysig. Yn ogystal â morâl. Gyda lwc mae Bragdy'r Mŵs Piws yn cynnig y ddau.

Ond yn bennaf oll, uchafbwynt y dydd oedd y gymuned. O'r trefnwyr i'r cefnogwyr mewn rhesi ar hyd y llwybr, roedd yn teimlo fel bod yr holl bentref wedi dod draw, yn gwenu o glust i glust, yn clapio ac yn ein hatgoffa nad adloniant ydy'r traddodiadau hyn yn unig; maen nhw'n rhyw fath o lud sy'n dwyn lle ynghyd. (Hynny a'r farn gyffredin achlysurol am daith y gasgen).

Eleni bu inni goroni enillydd newydd (da iawn Cai Price), llwyddiant a gaiff ei gofio am genedlaethau yn sicr, neu o leiaf tan y Dydd San Steffan nesaf lle bydd rhywun yn cystadlu gyda choesau cryfach, cydbwysedd gwell, a llai o amheuon am redeg nerth eu pen i lawr Maes-Y-Lan ar ôl casgen sy'n ffoi.

Hoffwn ddiolch yn arbennig i Urien a Namthip am drefnu'r digwyddiad. Byddai'n amhosibl trefnu digwyddiadau o'r fath heb gymorth, er gwaethaf yr hyn y gallai'r gasgen fod wedi credu, a gyda diolch i'w hymdrech, egni a'u hiwmor da, bu iddyn nhw greu diwrnod arall bythgofiadwy yn Nolwyddelan.

Felly dewch inni glodfori'r haul yn tywynnu ym mis Rhagfyr, ymwelwyr rhyngwladol a wnaeth groesawu'r anhrefn, noddwyr sy'n deall chwaraeon y pentref, a chymuned hwyliog sy'n ymddangos, bob tro, llawn cynhesrwydd a jest digon o nonsens cystadleuol.

Cofiwch chi eich esgidiau rhedeg. Fe wnaiff Urien gyflenwi'r casgenni, fe wna i gadw trefn ar y cystadleuwyr, bydd y gasgen yn achosi drama ac yn dilyn hynny bydd pob un ohonom yn dychwelyd i'n tafarn gymunedol, yn chwerthin gyda'n gilydd gan rannu ysbryd cymunedol a straeon.

Welwn ni chi yno eto'r flwyddyn nesaf? Mike Hewitt